# Awdurdod Parc Cenedlaethol

**07 Chwefror 2024**

**<u>Yn Bresennol (yn bersonol)</u>**
Y Cynghorydd D Clements (Cadeirydd)
Y Cynghorydd SL Hancock MBE, Dr M Havard, Mrs S Hoss, y Cynghorydd R Jordan, y Cynghorydd P Morgan, Dr RM Plummer, y Cynghorydd B Price, y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall, y Cynghorydd M Wiggins a'r Cynghorydd A Wilcox.

**<u>Yn bresennol (o bell)</u>**
Dr R Heath-Davies, Mr GA Jones a'r Cynghorydd M James.

**<u>Hefyd yn bresennol:</u>**
Kate Attrill (Rheolwr Rheoli Datblygu), Catrin Evans (Pennaeth Cyllid), Georgia Jones (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd), Tegryn Jones (Prif Weithredwr), Michael Kent (Swyddog Monitro), Caroline Llewellyn (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd) a Sara Morris (Cyfarwyddwr Creu Lleoedd, Datgarboneiddio ac Ymgysylltu).

[Parc Llanion, Doc Penfro ac o Bell 10.00am – 12:03pm]

**1. Ymddiheuriadau**
Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd S Alderman, y Cynghorydd R Owens a'r Cynghorydd C Williams BEM.

**2. Datgan Buddiannau**
Gwnaeth Dr R Plummer ddatganiad cyffredinol fel Aelod o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ac Ymddiriedolwr Plantlife, fodd bynnag arhosodd yn y cyfarfod a chwarae rhan lawn yn y trafodaethau.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Rhagfyr 2023 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan y Cynghorydd S Hancock, **PENDERFYNWYD** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Rhagfyr 2023.

**4. Log Gweithredu a Materion yn Codi**
<u>a) Adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (rhif 888)</u>
Eglurwyd y byddai copi drafft o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael ei gyflwyno gerbron cyfarfod o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn y dyfodol i'r Aelodau ei drafod a'i gymeradwyo.

b) Yr Adolygiad Cyflogau a Graddfeydd (rhif 914)
Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod yr adolygiad yn parhau ar amser ac y byddai wedi'i gwblhau cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

c) Hyfforddiant Seiberddiogelwch – Y nifer sydd wedi Cwblhau (rhif 926)
Cadarnhawyd bod rhyw 5 Aelod wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn. Ategwyd pa mor bwysig yw'r hyfforddiant.

d) Hyfforddiant Seiberddiogelwch a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru (rhif 947)
Dywedwyd bod adran TG yr Awdurdod wedi cadarnhau pe bai gan Aelod dystysgrif i ddangos ei fod wedi cwblhau hyfforddiant Seiberddiogelwch gyda sefydliad arall yn ystod y 12 mis diwethaf, na fyddai'n ofynnol iddo ddilyn hyfforddiant yr Awdurdod. Ychwanegwyd y byddai'n ofynnol yn y dyfodol i Aelodau gwblhau hyfforddiant gloywi byr ar Seiberddiogelwch.

e) Cynllun Gweithredu Strategaeth y Gymraeg (rhif 948)
Cadarnhawyd, yn dilyn cyfarfod gyda'r Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth, bod cynllun gweithredu wedi'i ddrafftio a'i ddosbarthu i'r Swyddogion perthnasol i gael eu sylwadau. Ychwanegwyd unwaith y byddai sylwadau'r Swyddogion wedi dod i law, y byddai'r cynllun gweithredu wedyn yn cael ei ddosbarthu i Aelodau'r Gweithgor Iaith Gymraeg.

**Nodwyd.**

**5. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi mynychu'r digwyddiadau canlynol:

- Cyfarfod dan arweiniad Llywodraeth Cymru gyda Chadeiryddion Byrddau Sefydliadau ac Awdurdodau'r Sector Cyhoeddus, yn ymwneud â Llywodraethu Strategol.
- Brecwast Undeb Amaethwyr Cymru i godi arian i'r Ambiwlans Awyr.
- Cyfarfod o'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol lle trafodwyd y gyllideb.
- Cyfarfod o Brosiect Afon Cleddau a hwyluswyd i lunio dull cydgysylltiedig a strategol o wella afon Cleddau.
- Cyfarfod â Chadeirydd newydd Cyfeillion APCAP, Clare Dowe, i drafod materion megis blaenoriaethau a'r Cynllun Rheoli.

Manteisiodd y Dirprwy Gadeirydd ar y cyfle i ddiolch i Mrs S Hoss am yr anerchiad ysbrydoledig a roddodd fel rhan o hyfforddiant diweddar Llywodraeth Cymru i'r Aelodau.

Awgrymodd y Prif Weithredwr y dylid coladu a dosbarthu'r wybodaeth oedd yn ymwneud ag amrywiol bwyllgorau'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol a'r Aelodaeth.

**Nodwyd.**

6. **Adroddiadau o gyfarfodydd amrywiol Bwyllgorau'r Awdurdod**
Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod i'r Aelodau er ystyriaeth/ gwybodaeth:
(i) Pwyllgorau Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 08/01/2024 ac ar 13/01/2023;
(ii) Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 06/12/2023;
(iii) Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau a gynhaliwyd ar 06/12/2023;
(iv) Fforwm Gwirfoddolwyr a gynhaliwyd ar 22/11/2023;

Gofynnodd yr Aelodau am i'w gwerthfawrogiad a'u diolchgarwch am gymorth gwirfoddolwyr gael ei drosglwyddo i'r Fforwm Gwirfoddolwyr. Yn dilyn trafodaeth, cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai'n trafod digwyddiadau gwirfoddol gyda'r Swyddog Datblygu Gwirfoddoli er mwyn sicrhau bod yr Aelodau yn cael gwahoddiadau cyson i fynychu.

(v) Pwyllgor Adnoddau Dynol a gynhaliwyd ar 04/10/2023;
(vi) Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 08/11/2023.

**PENDERFYNWYD** mabwysiadu/ derbyn cofnodion y Pwyllgorau uchod.

[Ymunodd Mr GA Jones â'r cyfarfod cyn ystyried Adroddiad 01/24, Cynllunio Cyllideb Ddrafft 2024/25.]

7. **Cynllunio Cyllideb Ddrafft 2024/25**
Roedd yr adroddiad yn nodi'r cyllidebau Refeniw a Chyfalaf drafft ar gyfer 2024/25 a'r rhagamcanion ar gyfer 2025/26 i 2027/28, yr ardoll ddrafft 2024/25 ar Gyngor Sir Penfro (CSP), y dangosyddion darbodus ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf, a'r Strategaeth Fuddsoddi a'r Datganiadau Polisi ar Gronfeydd Ariannol Wrth Gefn a Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2024/25.

<u>Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf Drafft 2024/25 a'r Rhagamcanion ar gyfer 2025/26 i 2027/28</u>
O ran y cyllidebau ar gyfer 2024/25, roedd yr adroddiad yn nodi strategaeth gyllidebol yr Awdurdod a'r rhagdybiaethau allweddol oedd yn sail i'r cyllidebau, ac fel yr oedd yr Aelodau wedi'u trafod yn flaenorol mewn gweithdy ar baratoi cyllideb.

Dywedwyd y byddai diffyg yn y gyllideb weithredol ar gyfer 2024/25 yn £509k ac y byddai'r gyllideb yn cael ei mantoli drwy ddefnyddio cronfeydd penodol wrth gefn oedd wedi'u neilltuo. Roedd yr adroddiad yn nodi bod

disgwyl y byddai'r diffyg yn cael ei reoli yn 2024/25 drwy barhau i wneud arbedion effeithlonrwydd ynghyd â chael strategaeth i gynhyrchu incwm.

Nododd yr adroddiad bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei chyllideb ddrafft ar gyfer 2024/25 fis Rhagfyr 2023 oedd yn cadarnhau y byddai’r Grant Parc Cenedlaethol yn parhau ar yr un lefel ag yn 2023/24. Eglurwyd y byddai’r gyllideb derfynol yn cael ei chyhoeddi fis Mawrth 2024.

Eglurodd y Prif Weithredwr bod mynd i'r afael â'r diffyg ariannol yn flaenoriaeth i'r Awdurdod a bod y Tîm Rheoli wedi cael y dasg o glustnodi ffyrdd y gallai'r Awdurdod reoli gwneud 25% o arbedion yn y gyllideb dros y ddwy flynedd nesaf drwy gyfuniad o gynhyrchu incwm ac arbedion costau. Dywedodd y Pennaeth Cyllid ei bod yn y broses o asesu costau cyffredinol yr Awdurdod i glustnodi meysydd lle gellid gwneud arbedion.

Cafwyd trafodaeth ynghylch mewnbwn yr Aelodau i'r gyllideb, ac awgrymwyd y dylid trefnu cyfres o Weithdai Cyllideb cyn cymeradwyo cyllideb y blynyddoedd dilynol er mwyn cael cyfle i drafod. Eglurodd y Prif Weithredwr y byddai'r Aelodau, unwaith y byddai'r broses wedi'i sefydlu, yn cael eu diweddaru yn unol â’r broses honno.

Gofynnodd Aelod am fanylion yr eiddo y mae’r Awdurdod wedi buddsoddi ynddo a'r enillion o’r buddsoddiad. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod yr Awdurdod yn berchen ar lai na 2% o dir o fewn y Parc Cenedlaethol, a bod Swyddog Ystadau'r Awdurdod wedi bod yn rhagweithiol i sicrhau'r incwm gorau posibl o'r ystâd. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod yr Archwilwyr Mewnol yn y broses o wneud archwiliad o Reoli Ystâd yr Awdurdod, ac awgrymwyd, oherwydd natur gyfrinachol y mater, y dylid cyflwyno adroddiad i'r Grŵp Cynhyrchu Incwm i'w ystyried ymhellach a'i drafod.

Nodwyd bod gwerthu coed wedi gweld gostyngiad yn ystod y flwyddyn, a chwestiynwyd pa mor hyfyw yw’r gweithgarwch hwn. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod Cilrhedyn wedi bod yn her i'r Awdurdod ond bod Cilrhedyn yn gwasanaethu fel depo i’r staff ac yn cynnal gwaith mewnol yr Awdurdod drwy ddarparu deunydd o ansawdd uchel megis dodrefn ar gyfer Llwybr yr Arfordir. Eglurodd, er bod yr Awdurdod wedi ceisio gwerthu Cilrhedyn yn y gorffennol, nad oedd y cynigion a dderbyniwyd wedi bod yn ddigon i brynu depo newydd addas.

Dywedwyd bod £150,000 wedi'i neilltuo ar gyfer Datgarboneiddio/ Net Sero yn y gyllideb ddrafft, a gofynnodd Aelod am ragor o fanylion am y buddsoddiad hwn a'r canlyniadau a ragwelir. Cadarnhawyd mai buddsoddiad oedd hwn ar gyfer prynu Canopïau Solar ym meysydd parcio Llanion ac Oriel y Parc a awgrymwyd gan Gwasanaeth Ynni

Cymru oedd wedi cynnal astudiaeth o'r trydan a'r gwres a ddefnyddir ar draws ystâd yr Awdurdod. Rhagwelwyd y byddai'r canopïau hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar filiau trydan yr Awdurdod oedd wedi gweld cynnydd dramatig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Cadarnhawyd bod y Swyddogion yn y cam dylunio o'r broses ond y gobaith oedd y byddai'r Awdurdod yn gallu cyflawni'r gwaith yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Awgrymodd Aelod y dylid cyflwyno adroddiad i gyfarfod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn y dyfodol i amlinellu cynllun yr Awdurdod ar y modd y byddai'n mynd i'r afael â'r diffyg ariannol gyda thargedau unigol ar gyfer pob maes. Nodwyd hyn gan y Prif Weithredwr.

Ar gynnig Dr M Havard, a eiliwyd gan y Cynghorydd M James, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo Cyllideb Ddrafft 2024/25, yn amodol ar nodi bod grant/ Ardoll y Parc Cenedlaethol eto i'w cadarnhau, a nodi'r rhagamcanion ariannol ar gyfer 2025/26 i 2027/28.

Ardoll ar Gyngor Sir Penfro (CSP)
Nododd yr adroddiad bod Adran 71 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995, is-adran 3, yn pennu'r modd y dylid cyhoeddi'r ardoll i'w chodi ar CSP. Roedd yr adroddiad yn cynnwys dadansoddiad llawn o'r ardoll, a rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod rhaid hysbysu CSP o'r ardoll swyddogol sy'n ofynnol erbyn 15 Chwefror 2024.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan Dr R Plummer, **PENDERFYNWYD** bod yr Aelodau yn awdurdodi ardoll o £1,083,329 (neu swm priodol arall a benderfynir ar ôl derbyn cadarnhad am y cyllid net a gymeradwyir gan Lywodraeth Cymru) gan Gyngor Sir Penfro am y flwyddyn 2024/25.

Dangosyddion y Cod Darbodus a'r Strategaeth Fuddsoddi 2024/25
Yn ôl Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003, dywedwyd ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod roi sylw i God Darbodus CIPFA wrth osod cyllidebau blynyddol. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried cyngor y Prif Swyddog Ariannol wrth benderfynu ar raglen o fuddsoddi cyfalaf sy'n fforddiadwy, yn ddarbodus ac yn gynaliadwy, fel y nodir yn yr adroddiad.

Ar gynnig Dr R Plummer, a eiliwyd gan Dr M Havard, **PENDERFYNWYD** bod yr Aelodau:
i) yn mabwysiadu'r Dangosyddion Darbodus fel y'u cyflwynir,
ii) yn cymeradwyo'r Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn a'r Strategaeth Fuddsoddi a'r Polisïau Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2024/25.

*[Gohiriwyd y cyfarfod o 11:25am i 11:30am.]*

**8. Codi Tâl Dewisol Cyn Ymgeisio**

Croesawodd y Cadeirydd y Cyfarwyddwr Creu Lleoedd, Datgarboneiddio ac Ymgysylltu a gyflwynodd adroddiad oedd yn gofyn am gymeradwyaeth yr Aelodau i gyflwyno gwasanaeth cyn-ymgeisio dewisol newydd, yn ychwanegol at y gwasanaeth cyn ymgeisio statudol presennol. Yn ogystal, roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth yr Aelodau i gyflwyno cytundebau perfformiad cynllunio fyddai'n ategu'r gwasanaeth cynllunio i ymateb i geisiadau mwy cymhleth. Hysbyswyd yr Aelodau bod y cynnig yn amlygu'r un dull ag yr oedd nifer o Awdurdodau Cynllunio eisoes wedi'i fabwysiadu, a bod y taliadau arfaethedig wedi'u seilio ar y model a ddefnyddir gan Gyngor Sir Penfro er mwyn sicrhau cysondeb ar draws Sir Benfro.

Awgrymodd Aelod y gallai'r Nodiadau Canllaw cysylltiedig fod yn haws eu defnyddio drwy gynnwys crynodeb byr a thabl o'r cynnwys ar ddechrau'r ddogfen. Ymatebodd y Swyddog drwy ddweud y byddai crynodeb byr o'r ddogfen yn cael ei gynnwys ar y wefan ynghyd â hyperddolenni fyddai'n mynd ag unigolyn yn uniongyrchol i'r adrannau y mae angen eu gweld. Bu trafodaeth wedyn ynglŷn â phwysigrwydd marchnata'r cynllun yn briodol i sicrhau llwyddiant.

Dywedwyd bod yr Awdurdod yn y gorffennol wedi cynnig gwasanaeth 'Cymhorthfa Gynllunio' yn ddi-dâl, a gofynnwyd am eglurhad ynghylch y gwahaniaeth rhwng yr hen wasanaeth a'r un a gynigir. Eglurodd y Swyddog, er bod y 'Gymhorthfa Gynllunio' yn boblogaidd, bod y Swyddogion yn ei chael yn anodd iawn deall natur y safleoedd dan sylw a chynnig cyngor sylweddol o ganlyniad i'r amser byr a dreuliwyd gydag ymgeiswyr a'r anallu i gynnal ymweliadau safle. Ychwanegwyd bod y ffactorau hyn, ar adegau, wedi arwain at gam-gyfathrebu oedd wedyn yn arwain at orfodaeth. Cadarnhawyd nad oedd yr Awdurdod ychwaith mewn sefyllfa i gynnig y gwasanaeth hwn yn rhad ac am ddim oherwydd prinder adnoddau. Eglurodd y Swyddog y byddai'r gwasanaeth newydd yn rhoi cyfle i Swyddogion ddeall y safleoedd yn llawn er mwyn rhoi cyngor a gwybodaeth gywir.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai angen i Swyddogion sicrhau na fyddai unigolion oedd yn dewis peidio defnyddio'r gwasanaeth premiwm yn cael eu trin yn llai ffafriol, a chytunwyd y byddai hyn yn cael ei fonitro. Awgrymodd Aelod bod gwybodaeth am y nifer sy'n manteisio ar y gwasanaeth yn cael ei chyflwyno i'r Aelodau yn y dyfodol, a nodwyd hyn gan y Swyddogion.

Ar gynnig y Cynghorydd R Jordan, a eiliwyd gan Mrs J James, **PENDERFYNWYD**;

i) cefnogi cyflwyno gwasanaeth cyn-ymgeisio dewisol o'r 1af o Ebrill 2024 yn seiliedig ar y Nodyn Cyfarwyddyd yn Atodiad A.

ii) cefnogi cyflwyno Cytundebau Perfformiad Cynllunio o’r 1af o Ebrill 2024 mewn amgylchiadau priodol yn seiliedig ar y Nodyn Cyfarwyddyd yn Atodiad A.
iii) rhoi awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr Creu Lleoedd, Datgarboneiddio ac Ymgysylltu yr Awdurdod Parc Cenedlaethol i atal y gwasanaeth cyn ymgeisio dewisol a’r Cytundebau Perfformiad Cynllunio os nad oes digon o adnoddau yn yr Adran i allu cyflawni’r gwasanaeth – bod y penderfyniad hwn yn cael ei wneud drwy ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu.
iii) rhoi awdurdod dirprwyedig i Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Creu Lleoedd, Datgarboneiddio ac Ymgysylltu yr Awdurdod Parc Cenedlaethol gytuno ar set o daliadau diwygiedig yn flynyddol i fod yn gymwys o’r 1af o Ebrill bob blwyddyn. Y penderfyniad hwn i’w wneud drwy ymgynghori â Chadeirydd yr Awdurdod.

**9. Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy.**
Croesawodd y Cadeirydd y Prif Weithredwr a gyflwynodd adroddiad oedd yn amlinellu newid arfaethedig i enw a chylch gorchwyl y Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy. Roedd y papur yn rhoi gwybodaeth am gefndir y Pwyllgor a'r rhesymau dros y newid arfaethedig.

Ar gynnig y Cynghorydd S Hancock, a eiliwyd gan y Cynghorydd P Morgan, **PENDERFYNWYD** cytuno ar y Cylch Gorchwyl diwygiedig a’i fabwysiadu ar gyfer y Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy ynghyd â newid enw'r Pwyllgor i 'Y Pwyllgor Grantiau'.

Cadarnhawyd y cofnodion hyn (cyn belled ag y cynhwysir y newidiadau sy’n dilyn) yng nghyfarfod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2024:
Cofnodwyd bod Mrs J James yn bresennol yn y cyfarfod.